



Ein cyf/Our ref: MA/KW/1262/20

David Allen
Cadeirydd
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAU)

9 Ebrill 2020

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu i roi syniad ichi ymlaen llaw o'r adnodd sydd wedi'i neilltuo'n amodol i CCAUC ar gyfer 2020-21.

Rydym mewn cyfnod eithriadol ar hyn o bryd sy'n rhoi galwadau eithriadol ar bob maes gwaith ar draws y Llywodraeth. Nid oes unrhyw un o feysydd busnes Llywodraeth Cymru nad yw'n wynebu pwysau ychwanegol ar hyn o bryd. Rwy'n siŵr eich bod yn deall ei bod yn hanfodol ein bod yn cyfeirio adnoddau i gefnogi'r ymateb rheng flaen i achos COVID-19 yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn felly ynghylch dyrannu adnoddau i gefnogi meysydd hanfodol o weithgarwch. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo.

Yr adeg hon o'r flwyddyn byddwn fel arfer yn ysgrifennu i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fodd bynnag, yn sgil yr angen i ganolbwyntio pob ymdrech ac adnoddau cyfyngedig y Llywodraeth i'n hymateb i achos y coronafeirws, ni allaf eich hysbysu am y cymorth ariannol sydd ar gael ichi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Am y rheswm hwnnw, ni allaf gyhoeddi fy llythyr cylch gwaith ar hyn o bryd.

Ond, rwy'n deall bod angen i'r Cyngor a'r sector gael syniad am gymorth cyson Llywodraeth Cymru ac am yr adnoddau a allai fod ar gael i gefnogi addysg uwch yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae'r sector addysg uwch yn ei gwneud at ein hymateb i'r argyfwng. Fel y gwyddoch, ysgrifennais at yr Is-Gangellorion ar 27 Mawrth i ddiolch i'r sector am eu cyfraniad ac i amlinellu'r meysydd hynny yr ydym yn disgwyl y bydd ein sefydliadau yn gallu eu helpu. Bydd y blaenoriaethau yr ydym wedi rhoi sylw iddynt dros y blynyddoedd diwethaf – Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn gweithio ar y cyd; cydweithredu rhwng y sector a'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


busnes a'r diwydiant; a datblygu sector sydd â chyfrifoldeb sifig yn rhan annatod ohono – yn hanfodol i gefnogi'r ymdrech genedlaethol i ddelio â'r pandemig. Rwy'n dibynnu ar y Cyngor i barhau i flaenoriaethu'r meysydd hynny o weithgarwch. Mae cyflwr y sector a rôl ein sefydliadau yn y gymdeithas – yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – wedi datblygu dros hanes cyfnod o fwy na 150 mlynedd a byddant yn parhau i wneud hynny. Mae'r llywodraeth hwn wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r sector i wneud cyfraniad gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr, cymunedau a'r genedl.

Fel y gwyddoch, mae'r trafodaethau ar ymrwymadau o ran adnoddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 yn parhau i fynd rhagddynt. Ar hyn o bryd, ni allaf roi gwybod pa lefel o gyllid fydd ar gael. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod ei bod yn bwysig ichi gael syniad amodol o uchafswm y cyllid a allai fod ar gael i gefnogi addysg uwch dros y flwyddyn sydd i ddod. Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael imi ar hyn o bryd, y ffigur amodol y gallaf ei gynnig yw £171.9m (dyraniad cyfalaf a refeniw).

| | |
|----------------------------------------------------|--------------------|
| Refeniw (net) | 161,857,000 |
| Cyllid nad yw'n arian parod (dibrisiant) | 90,000 |
| Cyfalaf (net) | 10,000,000 |
| Cyfanswm Cymorth Grant Arian Parod dros dro | 171,947,000 |

Mae Gweinidogion Cymru wrthi'n adolygu ein holl linellau wariant i sicrhau bod y cynigion a chyflwynir yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2020-21 yn parhau i fod yn briodol. Maent hefyd yn ceisio sicrhau bod adnoddau Llywodraeth Cymru'n cael eu targedu yn y ffordd orau i ateb yr heriau sy'n codi yn sgil pandemig COVID-19 yng Nghymru. Rwy'n disgwyl y bydd cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael imi yn newid, gan leihau ymhellach o bosibl, a bydd angen i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau anodd ar y cyd ynghylch sut y dylid dyrannu ein hadnoddau. Felly, rhaid ichi ddeall y gallai hynny olygu eich bod yn derbyn llawer llai na'r swm amodol. Disgwylir i'r broses ddod i ben tua diwedd mis Ebrill, a byddaf yn ysgrifennu atoch cyn gynted ag y bo modd pan fydd yr adnoddau sydd ar gael yn amlwg.

Yours sincerely



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education